Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Llun, 24 Medi 2012** |
| Amser: | **14:00 - 16:55** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_400000_24_09_2012&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Darren Millar (Cadeirydd)**<br>**Mohammad Asghar (Oscar) AC**<br>**Mike Hedges**<br>**Julie Morgan**<br>**Gwyn R Price**<br>**Jenny Rathbone**<br>**Lindsay Whittle** |
| Tystion: | **Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru**<br>**Stephen Martin, Swyddfa Archwilio Cymru**<br>**Jane Hutt, y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ**<br>**Reg Kilpatrick, Cyfarwyddwr, Local Government and Public Service**<br>**Nicola Charles, Llywodraeth Cymru**<br>**Mike Usher, Swyddfa Archwilio Cymru**<br>**Martin Peters, Swyddfa Archwilio Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Tom Jackson (Clerc)**<br>**Sarah Beasley (Clerc)**<br>**Daniel Collier (Dirprwy Glerc)**<br>**Sarah Sargent (Dirprwy Glerc)**<br>**Joanest Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

## 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Aled Roberts.

## 2. Sesiwn friffio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru 'Cyrhaeddiad addysgol plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal'

2.1 Bu i'r Cadeirydd wahodd Archwilydd Cyffredinol Cymru i friffio'r Pwyllgor ar ei adroddiad 'Cyrhaeddiad addysgol plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal'.

**Pwynt gweithredu:**

Cytunodd Archwilydd Cyffredinol Cymru i ddarparu:

- Rhagor o fanylion am y model a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth yr Alban wrth helpu plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal i gael mynediad at addysg uwch.

## 3. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

4 a 7.

## 4. Opsiynau ar gyfer ymdrin â 'Cyrhaeddiad addysgol plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal'

4.1 Cytunodd y pwyllgor i ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i ystyried canfyddiadau adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru fel rhan o'i waith craffu ar ddeddfwriaeth sydd ar y gweill ynghylch gofal.

## 5. Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru) - Tystiolaeth gan y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ

5.1 Clywodd y pwyllgor dystiolaeth gan Jane Hutt, y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ, sef yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil; Reg Kilpatrick, Cyfarwyddwr Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru; a Nicola Charles, Gwasanaeth Cyfreithiol, Llywodraeth Cymru.

## 6. Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru) - Tystiolaeth gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

6.1 Clywodd y pwyllgor dystiolaeth gan Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru; Mike Usher, Cyfarwyddwr y Grŵp - Archwilio Ariannol, Swyddfa Archwilio Cymru; a Martin Peters, Rheolwr Cydymffurfiaeth, Swyddfa Archwilio Cymru.

**Pwynt Gweithredu:**

6.2 Cytunodd Archwilydd Cyffredinol Cymru i ddarparu nodyn atodol i'r pwyllgor ar:

- ei amcangyfrif o oblygiadau ariannol y Bil,
- a'i bryderon yn ymwneud â threfniadau Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau ar gyfer trosglwyddo staff i'r Swyddfa Archwilio Cymru newydd a sefydlir gan y Bil.

## 7. Ystyried tystiolaeth ar Fil Archwilio Cyhoeddus (Cymru)

7.1 Ystyriodd y pwyllgor y dystiolaeth a roddwyd gan y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ ac Archwilydd Cyffredinol Cymru fel rhan o waith craffu Cyfnod 1 ar Fil Archwilio Cyhoeddus (Cymru).

## 8. Papurau i'w nodi

8.1 Nododd y pwyllgor gofnodion y cyfarfod ar 17 Gorffennaf 012.